Y garddwr dewr

Ffyddlondeb / cryfder

Oes gennych chi ardd o gwmpas y tŷ? Mae rhai pobl yn treulio oriau bob dydd yn garddio. Maen nhw'n tyfu blodau, ffrwythau a llysiau. Mae rhai eraill yn tyfu pob math o goed. Fyddwch chi'n helpu yn yr ardd? Mae yna ddigonedd o waith i chi ei wneud yn yr ardd. Tyfu blodau, gofalu am ffrwythau a llysiau neu chwynnu. Dyna i chi waith diflas ydi chwynnu! Mae'r stori hon yn sôn am un oedd yn hoff iawn o arddio.

Mewn bwthyn bach yn ninas Sinope yn Asia Leiaf, amser maith yn ôl, roedd Phocas yn byw. Byddai yn ei ardd bob dydd. Byddai pobl yr ardal yn aros ar y ffordd i edrych ar y planhigion yn yr ardd. Bob adeg o'r flwyddyn roedd yr ardd yn werth ei gweld. Roedd ynddi flodau a choed o bob math. Pan fyddai'r bobl yn aros wrth ymyl yr ardd, byddai Phocas yn dechrau siarad efo nhw.

"Y chi ydi'r garddwr?" gofynnodd un o'r ymwelwyr iddo.

"Ie," meddai yntau, "ac mae gen i feddwl y byd o'r ardd. Rydw i'n treulio llawer o amser bob dydd yn garddio."

"Pa blanhigyn ydi hwnna efo blodau coch arno?" gofynnodd un arall iddo.

Roedd Phocas wrth ei fodd yn cael disgrifio ac enwi'r planhigion. A phob tro y byddai'n sôn am y planhigion byddai'n siŵr o gael cyfle i sôn am Iesu Grist. Roedd Phocas yn Gristion ac yn dilyn Iesu Grist. Byddai'n gwahodd pobl i ddod i'r ardd i orffwyso er mwyn iddo gael sôn am Iesu Grist wrthyn nhw.

Tua'r adeg yma daeth brenin newydd i Rufain. Roedd ef am ladd pob Cristion. Anfonodd ei filwyr i bob rhan o'r wlad i ladd pob un oedd yn dilyn Iesu Grist. Un diwrnod daeth ei filwyr heibio i ardd Phocas. Dechreuodd sgwrsio efo'r milwyr a gofyn pam oedden nhw yno.

"Rydyn ni'n chwilio am ryw Phocas. Mae o yn dilyn Iesu Grist. Ac mae'r brenin newydd wedi rhoi gorchymyn i ni ei ladd."

"O!" meddai Phocas, "rydw i yn ei adnabod yn dda. Dydi o ddim yn byw ymhell oddi yma."

"Diolch," meddai un o'r milwyr.

"Mi wna i ddangos i chi ymhle mae'n byw yn y bore," meddai Phocas wrth y milwyr.

Drwy'r nos bu Phocas yn meddwl beth i'w wneud. Gallai ddianc, ond fe benderfynodd aros. Yn y bore bach dechreuodd balu yn yr ardd. Bu'n palu am oriau a phan gyrhaeddodd y milwyr roedd Phocas wedi palu twll mawr yn yr ardd. Pan ddaeth y milwyr heibio dywedodd Phocas wrthynt,

"Y fi ydi Phocas ac mi rydw i wedi paratoi bedd i mi fy hun yn yr ardd. Fe gewch fy lladd y munud yma."

Roedd y milwyr wedi synnu. Ac meddai Phocas, "Pan oedd Iesu Grist yng ngardd Gethsemane, wnaeth o ddim dianc pan ddaeth y milwyr i'w ddal. Rydw innau am fod fel Iesu Grist."

Lladdwyd Phocas a rhoddwyd ei gorff yn ei fedd ei hun yn yr ardd roedd mor hoff ohoni.

"Yr oedd gardd yno, ac iddi hi yr aeth ef a'i ddisgyblion."

Ioan 18:1

O Dduw, dioddefaist drosof i
trwy farwolaeth Iesu Grist,
beth ydw i yn ei ddioddef drosot ti?
Amen.

Oni fyddai Phocas wedi gwneud mwy o waith da dros Iesu Grist petai wedi dianc?